

Gwarchid rhag difrod

Defnyddir gludion ewinedd yn gyffredin i gymhwyso ewinedd artiffisial neu gelf ewinedd. Maent ar gael yn rhwydd ond yn dod gyda risgiau i iechyd a diogelwch, yn enwedig os na chant eu defnyddio'n iawn.



Risgiau

Alergedd neu lid y croen

- Mae gludion ewinedd yn aml yn cynnwys ethyl cyanoacrylate neu acryligion arall, all achosi llid y croen, cochni, neu hyd yn oed blisga os ydych yn sensitif i'r sylweddau yma.
- Gall rhai pobl datblygu alergedd i'r sylweddau yma, felly byddant yn cael adwaith os byddant yn eu defnyddio eto.

Difrod ewinedd

- Gall defnydd tro ar ôl tro gwanhau ewinedd naturiol, yn eu gwneud yn frau, yn dueddol o blicio, ac yn fwy tebygol o hollti.
- Gall dulliau tynnu ymosodol, fel plicio ewinedd wedi'u ludo i ffwrdd, achosi difrod parhaol i'r plât ewinedd.

Peryglon anadlu a llygad

- Gall fygdarth o'r gludydd llidio'r system resbiradol, yn enwedig mewn llefydd wedi'i awyru'n wael. Gall symptomau cynnwys pen tost, llid y gwddf, a phendro.
- Gall cyffyrddiad gyda'r llygaid achosi niwed difrifol. Mae angen sylw meddygol ar unwaith i gael gwared â gludydd o ardal y llygad.

Risg heintiau

- Gall gymhwyso gludydd i ewinedd wedi'u difrodi neu heintiedig gwaethygu'r broblem, efallai yn arwain at heintiau bacteriol neu ffwngaid.
- Mae lleithder wedi'i ddal neu facteria o dan ewinedd artiffisial cynyddu risg heintiau.

Cyngor am ddefnydd diogel

- **Prynwch o ffynonellau ag enw da**
Prynwch o ffynonellau ag enw da yn unig i sicrhau cadw at safonau diogelwch.
- **Cymhwyso wedi'i awyru'n dda**
Defnyddiwch mewn ardal wedi'i awyru'n dda pob amser i leihau amlygiad i fygdarth.
- **Dilynwch gyfarwyddiadau tynnu**
Defnyddiwch dechnegau tynnu priodol, megis socian mewn toddiant priodol, i osgoi niwed ewinedd a chroen.
- **Perfformio prawf clwt**
Cymhwyswch ychydig o lud i'r croen yn gyntaf i wirio am sensitifrwydd neu adweithiau alergaidd.
- **Defnyddio'n gynnil**
Osgoi cymhwyso gludydd yn ormodol, a sicrhau nad yw'r gludydd yn gollwng ar y croen o amgylch yr ewinedd.



Chartered Trading
Standards Institute

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

www.tradingstandards.uk/cosmetics